| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Partneriaethau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **14 Rhagfyr 2017** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth/<br>Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rheolwr Gwasanaethau, Ardaloedd** |
| **Teitl:** | **Adroddiad ar Adolygiad Un Pwynt Mynediad (SPoA)** |

## 1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth gyfredol am Un Pwynt Mynediad (SPoA) yn Sir Ddinbych wedi adolygiad diweddar gyda phartneriaid. Gellir gweld Adroddiad llawn yr Adolygiad yn Atodiad 1.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?

Darparu diweddariad i'r Aelodau ar berfformiad Un Pwynt Mynediad Sir Ddinbych ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion ac iechyd cymunedol. Mae’r adroddiad yn cynnwys negeseuon allweddol o safbwynt llwyddiant, heriau ac argymhellion ar gyfer y dyfodol yn seiliedig ar adolygiad a sbardunwyd yn fewnol oherwydd cyd-destun newidiol o fewn iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol

## 3. Beth yw’r Argymhellion?

Bod yr Aelodau yn:

3.1 ystyried yr adroddiad, ac yn parhau i gefnogi a hyrwyddo datblygiad SPoA fel ffordd o fodloni'r blaenoriaethau statudol ar gyfer 2017 - 2002 a’r ddyletswydd statudol i ddarparu Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; a

3.2 manteisio ar y cyfle i ymweld â'r SPoA i weld sut mae'r model darparu gwasanaeth yn gweithredu.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Bwriad yr adolygiad oedd

- Gwneud asesiad o angen, yn seiliedig ar weithgarwch y mae galw amdano hyd yma
- Asesu pa mor effeithiol ac effeithlon mae SPoA yn cyflawni ar y pwrpas a’r canlyniadau a gytunwyd arnynt.
- Sefydlu os yw'r model darparu yn ateb y gofyn yn 2017 ac ar gyfer y dyfodol.
- Argymell unrhyw newidiadau i ddulliau gweithredu a chyflawni SPoA a fydd yn darparu beth mae cwsmeriaid ei eisiau (synnwyr ehangaf) a gwneud arbedion.

4.2 Wrth fynd i’r afael â’r materion hyn rydym yn gwybod yr hoffai Llywodraeth Cymru (LlC) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) i'r adolygiad ystyried:

- Rôl SPoA o safbwynt rhyddhad cleifion o ysbyty
- Sut mae SPoA yn ffitio o ran datblygu timau adnoddau cymunedol integredig
- Cost rhedeg SPoA
- Mesurau llwyddiant

4.3 Yn gyffredinol, mae'n amlwg o'r adolygiad fod SPoA yn cyflawni y pwrpas a'r canlyniadau y cytunwyd arnynt.

- Dros y 3 blynedd diwethaf mae'r nifer o gysylltiadau / atgyfeiriadau at SPoA wedi dyblu.
- O ran cysylltiadau ar gyfer Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth mae cynnydd o 386% wedi bod yn y galw rhwng 2015 a 2017.
- Roedd 66% o'r holl waith cydlynu ac atgyfeirio yn Chwarter 1 a Chwarter 2 2017 i wasanaethau'n ymwneud ag Iechyd Cymunedol.
- Rhwng 2015 a 2017 mae'r nifer o atgyfeiriadau gan Feddygon Teulu wedi cynyddu o 83%.
- Mae swyddogaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth y SPoA wedi bod yn effeithiol gyda rhwng 35% a 40% o gysylltiadau wedi gallu aros y tu allan i'r system iechyd a gofal cymdeithasol ffurfiol [nid yw hyn yn cynnwys gwaith y Clwstwr Ail-alluogi a Chamu i Lawr].

Darganfu'r adolygiad fod cysyniad SPoA yn sylfaenol yn ateb y gofyn yn 2017 ac yn cael ei werthfawrogi gan randdeiliaid, fodd bynnag mae cydnabyddiaeth fod y model darparu o bosib angen ei addasu a'i ddatblygu er mwyn ffitio gyda datblygiad y Timau Adnoddau Cymunedol.

4.4 Fe amlygodd yr adolygiad feysydd ar gyfer gwelliant a datblygiad sydd wedi golygu'r argymhellion canlynol:

- Sefydlu a gweithredu fframwaith sicrhau ansawdd gref  Un mesur allweddol o lwyddiant fydd tîm SPoA crefftus, hyderus a llawn gwybodaeth yn darparu gwasanaeth IAA gwych.
- Gwella gweithio rhyngwyneb gyda gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mewn ysbytai ac yn y gymuned.
- Adolygu ac ailddiffinio'r rolau a chymysgedd sgiliau yn SPoA.
- Gwneud SPoA yn fwy hygyrch er mwyn cefnogi practisau meddygon teulu a hyrwyddo negeseuon iechyd cyhoeddus.
- SPoA i gefnogi datblygiad Pwyntiau Siarad a'r Gwasanaeth Llywio Cymunedol.
- Archwilio cyfleoedd cydweithio gyda SPoA Conwy.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae SPoA yn cefnogi nifer o'r blaenoriaethau corfforaethol ar gyfer 2017-2022:

- Mae pawb yn cael eu cefnogi yn eu cartrefi i ddiwallu eu hanghenion er enghraifft drwy gael lle canolog ar gyfer arbenigedd am addasiadau i'r cartref.
- Mae cymunedau'n gysylltiedig ac mae ganddynt fynediad da at nwyddau a gwasanaethau yn lleol, ar-lein neu drwy gysylltiadau cludiant da drwy fod yn bwynt atgyfeirio canolog ar gyfer gwasanaethau cymunedol iechyd a gofal cymdeithasol.
- Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid drwy ddatblygu mwy o ddinasyddion sy'n wybyddus ac sy'n gofalu am eu hunain.

6. **Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae cyfran fawr o gost SPoA hyd yma wedi ei ariannu gan y Gronfa Gofal Integredig (£453,000 heb gost y Nyrs Ardal sy'n cael ei hawlio gan BCU), gyda'r gweddill yn ymrwymiad cyfartal gan y GIG a'r Cyngor (£38,000 yr un yn 2016-17 a chyfraniad is, disgwyliedig, o £24,000 yn 2017-18)

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

Ni chynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar gyfer yr adroddiad hwn gan nad oes unrhyw newid i'r polisi na darpariaeth gwasanaethau o ganlyniad iddo.

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Ymgynghorwyd gyda staff sefydliadau partner fel rhan o'r adolygiad. Cylchredwyd 'survey monkey' at randdeiliaid oedd yn cynnwys aelodau. Yna cyflwynwyd adroddiad drafft yr adolygiad er mwyn ei drafod yn Nydd Iau Partneriaeth ar 26 Hydref 2017. Trafodwyd yr adroddiad diwygiedig yn Fforwm Cydleoli Sir Ddinbych ar 30 Hydref 2017 ,lle gorffennwyd gweithio ar yr argymhellion er mwyn eu trafod yn y Bwrdd Gwasanaethau Integredig Ardal Ganolog ar 13 Tachwedd 2017.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r SPoA yn elfen allweddol o integreiddiad iechyd a gofal cymdeithasol. Mae costau'r gwasanaeth yn cael eu diwallu'n bennaf drwy gefnogaeth grant gyda chyfraniadau cyfartal gan y Cyngor a'r GIG ac mae'r rhain yn ymrwymiad cost presennol.

10. **Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Bu'n anodd cael cytundeb ar gyfer cyllid y dyfodol ac os, fel y rhagwelir, y bydd yn cael ei ariannu gan y Gronfa Gofal Canolraddol yn rheolaidd, mae risg bob amser y gallai hyn gael ei dynnu'n ôl neu ei ail-gyfeirio i feysydd eraill. Mae'r gyllideb refeniw yn Sir Ddinbych wedi ei lleihau a'i gynnig fel arbedion o ganlyniad i argaeledd y Gronfa Gofal Ganolraddol. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cyflogi bron pob un o'r staff, felly mae angen i hyn gael ei liniaru gyda chytundeb partneriaeth mwy ffurfiol.

Risg arall yw diffyg cytundeb posib am rôl / model SPoA wrth i'r Timau Adnoddau Cymunedol ddatblygu.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae pwerau'r Pwyllgor Archwilio mewn perthynas â'r mater hwn wedi'u pennu yn Adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7 o Gyfansoddiad y Cyngor.

**Swyddog Cyswllt:**
Rheolwr Gwasanaeth, Ardaloedd - Gwasanaethau Cymorth Cymunedol
Rhif ffôn: 01824 712341